



# **Adroddiad Swyddogion**

**3/12/18**





Helo, ein corff myfyrwyr gwych, dyma'r hyn yr wyf wedi bod yn ei wneud fel eich Llywydd etholedig ers y senedd ddiwethaf. I ddechrau, fel Llywydd rydw i'n ystyried ffyrdd o gael cynnydd yn ein grant bloc, ac yr wyf yn chwilio am ddulliau eraill o gynyddu faint o arian ddaw i ni fel Undeb. Y cysyniad syml yw, po fwyaf o arian sydd gennym y mwyaf o ymgyrchoedd y gallwn ni eu cynnal a'r mwyaf o ffyrdd y gallwn ni ymgysylltu ar y cyd fel myfyrwyr.

Rwyf wedi cynrychioli corff y Myfyrwyr i'n rhwydweithiau Alumni mewn amryw o Ddathliadau'r Brifysgol megis 'Diwrnod y Sylfaenwyr' sy'n ddathliad bob blwyddyn, i nodi pryd y sefydlwyd y brifysgol. Yn y dathliadau hyn, rwy'n treulio amser yn siarad ag aelodau staff y brifysgol ar y lefel uchaf, er mwyn dod i ddeall eu syniadau mwy anffurfiol am bopeth sy'n digwydd o gwmpas y brifysgol. Byddwch chi'n synnu cymaint o wybodaeth a ddaw yn sgil un sgwrs anffurfiol.

Undebau Myfyrwyr o Ansawdd, neu UMA. Fel Undeb, rydym ar hyn o bryd yn mynd drwy'r hyn rwy'n hoffi ei ystyried fel archwiliad iechyd. Mae UMA yn fenter yr ydym yn ymgymryd â hi i weld lle rydym ni arni fel Undeb o ran Llywodraethiant a llawer o bethau eraill. Gobeithio erbyn diwedd y flwyddyn hon y cawn ni achrediad, a derbyn gwobr sgleiniog i gydnabod hynny.

O ran ymgysylltu allanol, rwyf wedi cwrdd â grŵp o fyfyrwyr o'r Wcráin; roedd yn bleser cael eu tywys o amgylch ein cyfleusterau, ac roedd ganddynt lawer o gwestiynau ynghylch sut mae'r undeb yn cael ei redeg a sut y gallant gymryd yr arferion gorau yn ôl i'w gwlad nhw. Mewn digwyddiad allanol yn ddiweddar iawn, cefais gyfle i gynrychioli'r myfyrwyr wrth i'r brifysgol groesawu'r llysgenhadaeth Tsieineaidd draw am y diwrnod. Roedd yn braf gweld cymaint o'n myfyrwyr Tsieineaidd yno yn ogystal â rhai cynrychiolwyr o'r Gymdeithas Wleidyddiaeth Ryngwladol (*Interpol*).

Y Bwrdd Academiaidd, Llywodraethiant a Chydymffurfiaeth, Adnoddau a Pherfformiad a Chyngor y Brifysgol yw'r prif bwyllgorau y mae'n rhaid i'r Llywydd eistedd arnynt. I esbonio'r rhain, mae pob pwnc academiaidd yn mynd drwy'r Bwrdd Academiaidd; diben Llywodraethiant a Chydymffurfiaeth yw sicrhau nad ydym yn gwneud unrhyw beth twp fel prifysgol, ac nad ydym yn torri unrhyw ddeddfau - hoffwn feddwl amdano fel 'y pwyllgor cynllunio ar gyfer yr hyn a all ddigwydd.' Adnoddau a Pherfformiad yw'r un sy'n ymwneud ag arian, lle mae arian y brifysgol yn cael ei symud o gwmpas a'i reoli. Cyngor y Brifysgol: mae popeth yn bwydo i'r pwyllgor hwn - dyma'r un pwysicaf. Rydyn ni'n hynod o ffodus fel corff myfyrwyr i gael y Llywydd a Llywydd UMCA/Swyddog Diwylliant Cymreig yn eistedd arno, gyda 2 bleidlais allan o aelodaeth o 18, mae'n eithriadol o bwerus, ac mae'n werth ei gael.

Rwyf hefyd yn eistedd ar lawer o is-bwyllgorau; yr un sy'n arbennig o ddi-ddorol i mi yw'r bwrdd Recriwtio a Marchnata a'r is-bwyllgorau sy'n perthyn iddo. Fel prifysgol, maen nhw'n awyddus i recriwtio myfyrwyr ac mae hyn yn wych, ond mae angen iddynt sicrhau eu bod yn cadw'r cynnig yn gyson drwy gydol ein hamser fel myfyrwyr yn y brifysgol hon. Dydyn ni ddim angen cytundeb 1 flwyddyn anhygoel ar gyfer glas-fyfyrwyr, rydym am gael cytundeb 3 blynedd anhygoel, neu un 4 neu 5 mlynedd, gan ddibynnu ar yr hyn rydych chi'n ei astudio a.y.b.





Hoffwn ddweud llongyfarchiadau mawr i Hermione a *Showdance* a'r holl gymdeithasau fu'n cymryd rhan pan lwyddon nhw i godi dros £700 mewn un noson am eu perfformiad yn yr ŵyl gelfyddydol. Fel Llywydd, dwi am dynnu eich sylw at y canlynol.

Yn fuan, arolwg ar ba ysgoloriaethau yr ydych chi'n meddwl y dylai fod ar gael i ni fel corff myfyrwyr.

Yn fuan, yr hyn a ddeilliodd o *AberSULovesEdSheeranDay*

Yn fuan, byddwn yn cynnal arolwg o'r hyn yr ydym yn credu y dylem ei gael yn Aberystwyth, o ran datblygu adeiladu, gan fy mod i bellach yn gydlynnydd ar gyfer y 'Cynllun ar gyfer Aberystwyth' sef menter gan Lywodraeth Cymru i gael adborth gan randdeiliaid ar lawr gwlad.

Rwyf hefyd yn edrych ar adnewyddu cyfleusterau Chwaraeon gyda chymorth Louisa - swyddog cyfleoedd, Y prif gyfleuster yr wyf yn awyddus i'w ailddatblygu yw *AstroTurf*, gan na all timau hoci'r sefydliad hwn chwarae gemau cartref yn y brifysgol ar hyn o bryd. Mae hyn bellach yn flaenoriaeth i mi, ynghyd â chynlluniau adnewyddu eraill posib. Roedd fy maniffesto'n datgan fy mwriad i ddechrau ailadeiladu seilwaith Undeb Aber, ac rwy'n bwriadu dal ati i geisio cael y maen i'r wal er mwyn gadael fy ôl ar y lle pan fyddaf yn dod i ddiwedd fy nghyfnod yn y swydd.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi anfon e-bost at ['prdstaff@aber.ac.uk'](mailto:prdstaff@aber.ac.uk) neu ['supresident@aber.ac.uk'](mailto:supresident@aber.ac.uk)

BRUCE WIGHT  
LLYWYDD

